QUALIFIED FOR THE FUTURE

CYMWYS AR GYFER Y DYFODOL

Ail-ddychmygu cymwysterau'r dyfodol

Rydyn ni am i gymwysterau'r dyfodol adlewyrchu ac adeiladu ar y Cwricwlwm i Gymru (y Cwricwlwm). Er mwyn helpu i lywio gwaith grwpiau datblygu ar y cyd, byddai'n ddefnyddiol disgrifio'n fras sut beth fyddai'r cymwysterau newydd hyn.

Ym mha ffyrdd y gallai cymwysterau gael eu cynllunio i ganiatáu i ysgolion a dysgwyr gael y gorau o'r Cwricwlwm?

Allwn ni gyd-greu gweledigaeth ar gyfer yr hyn y gallai cymwysterau yn y dyfodol ei gynnig i ddysgwyr, sut y gallai'r cymwysterau hyn edrych, a sut y gallent fod yn berthnasol i'r Cwricwlwm?

Cytuno ar weledigaeth ar gyfer cymwysterau'r dyfodol

Yn y papur hwn, rydyn ni'n archwilio themâu ac ystyriaethau allweddol i gyfrannu at weledigaeth ar gyfer cymwysterau'r dyfodol. Mae'r rhain yn helpu i ddadansoddi rhai o'r cwestiynau a'r materion a drafodwyd ym *Mhapurau Gwaith Dylunio ac Asesu Cymwys ar gyfer y Dyfodol.* Ein nod yw darparu man cychwyn ar gyfer trafodaeth.

Gallai rhai o'r ystyriaethau hyn fod yn berthnasol i bob cymhwyster, tra bod eraill yn cysylltu'n fwy uniongyrchol ag anghenion dysgwyr 14-16 oed a'r Cwricwlwm i Gymru. Gallai rhai fod yn berthnasol i'r gyfres gyfan o gymwysterau, tra bydd eraill yn fwy perthnasol i gynllun cymwysterau unigol.

Archwilio elfennau posibl gweledigaeth

Mae'r tabl isod yn archwilio elfennau posibl a allai gyfrannu at weledigaeth ar gyfer cymwysterau 14-16 y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys trafodaeth ynghylch pam y gallai gwahanol elfennau fod yn berthnasol, sut y gallent edrych yn ymarferol, a rhai pwyntiau pellach i'w hystyried wrth feddwl am weledigaeth.

Nid yw'r rhestr o elfennau a drafodir yn hollgynhwysfawr – bydd ffactorau eraill i'w hystyried wrth adeiladu gweledigaeth, a byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar beth arall y gallem ei drafod. Ac nid yw'n rhagnodol – mae'r holl elfennau arfaethedig yno i'w trafod.

QUALIFIED FOR THE FUTURE CYMWYS AR GYFER Y DYFODOL

I grynhoi, rydym ni wedi dewis yr elfennau canlynol i'w harchwilio'n fanylach. Mae'r rhain yn ystyried a allai cymwysterau yn y dyfodol:

- Helpu dysgwyr i wireddu dibenion y Cwricwlwm
- Cynnig hyblygrwydd a dewis i adlewyrchu cwricwla ysgol a dewis y dysgwr
- Cefnogi dilyniant dysgwyr yn unol ag egwyddorion cynnydd y Cwricwlwm
- Galluogi dysgwyr i symud ymlaen i ddysgu a hyfforddi ôl-16
- Cefnogi iechyd meddwl a lles cadarnhaol
- Hyrwyddo profiadau addysgu a dysgu cadarnhaol
- Annog dysgwyr i greu cysylltiadau cryf ar draws eu dysgu
- Cynnwys asesiadau perthnasol, dilys a diddorol
- Adlewyrchu amrywiaeth y dysgwyr a'r byd y maen nhw'n byw ynddo
- Gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ddigidol

Elfen	Disgrifiad	Sut allai edrych yn ymarferol?	Ystyriaethau eraill
Helpu dysgwyr i wireddu pedwar diben y Cwricwlwm	Bwriad y Cwricwlwm yw galluogi dysgwyr i ddod yn: • Ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol • Dinasyddion egwyddorol a gwybodus • Cyfranwyr mentrus a chreadigol • Unigolion iach a hyderus	Gallai'r dibenion gael eu hymgorffori a'u cyfeirio'n glir yn nibenion a nodau pob cymhwyster a'u hadlewyrchu yn ei gynnwys a'i drefniadau asesu. Gallai cynllun cymwysterau adlewyrchu'r syniadau diweddaraf ynghylch sut y gall asesu wobrwyo ac annog datblygiad cymwyseddau a meddylfrydau allweddol sy'n cyfrannu at bedwar diben y Cwricwlwm. (e.e. EntreComp).	Ni fwriedir i ddibenion y Cwricwlwm gael eu hasesu'n uniongyrchol. Ni fyddai cymwysterau yn ceisio asesu pa mor uchelgeisiol, creadigol neu fentrus yw dysgwr. Ond dylai fod yn bosibl cynllunio asesiadau sy'n annog ac yn cydnabod dysgwyr am fentro, arbrofi a datblygu eu syniadau drwy gynnig a methu, yn hytrach na cheisio cynhyrchu ymateb enghreifftiol yn unol â chynllun marcio anhyblyg.
Cynnig hyblygrwydd a dewis i adlewyrchu	Dylai cymwysterau alluogi ysgolion i adlewyrchu eu cwricwlwm unigryw eu	Gallai manylebau cymwysterau osgoi gor-ragnodi cynnwys manwl a cheisio canolbwyntio ar y profiadau, y sgiliau	Er mwyn sicrhau tegwch i ddysgwyr, rhaid i gymhwyster egluro'r hyn y byddant yn cael ei asesu arno. Bydd

Elfen	Disgrifiad	Sut allai edrych yn ymarferol?	Ystyriaethau eraill
cwricwla ysgol a dewis y dysgwr	hunain yn eu hymagwedd at bwnc penodol.	a'r wybodaeth sylfaenol y bydd dysgwyr yn cael eu hasesu arnynt, yn seiliedig ar ganllawiau'r Cwricwlwm. Gallai cymwysterau gynnwys mwy o ddulliau asesu sy'n caniatáu i ysgolion a dysgwyr ddewis pwnc neu gyd-destun penodol ar gyfer asesu. e.e. prosiectau, perfformiadau neu arteffactau yn seiliedig ar thema neu bwnc a ddewiswyd gan yr ysgol neu'r dysgwr. Mewn pynciau fel ffilm a chyfryngau digidol, drama, ac ieithoedd gellid caniatáu i ysgolion a dysgwyr ddewis pa ffilmiau neu destunau i'w hastudio. Mewn pynciau fel hanes, daearyddiaeth, busnes, a'r amgylchedd adeiledig gallai ysgolion a dysgwyr ddewis canolbwyntio ar ddigwyddiadau, tirnodau, busnesau ac adeiladau strwythurau sy'n berthnasol yn lleol. Mewn rhai pynciau, efallai y bydd cyfleoedd i ysgolion osod eu tasgau	pa mor dynn ac anhyblyg y caiff hyn ei ragnodi yn dibynnu'n rhannol ar y ffordd y caiff dysgwyr eu hasesu. Byddai angen arweiniad clir ar ysgolion ar sut i ddewis cynnwys sy'n cynnig lefel briodol o her i sicrhau bod asesiadau'n deg ac yn gymharol heriol i bob dysgwr. Er mwyn bod yn deg i bob dysgwr, mae asesiadau wedi'u gosod a'u marcio'n allanol yn tueddu i ofyn am fwy o eglurder ynghylch yr hyn y bydd dysgwyr yn cael eu hasesu arno a/neu'r math o dasgau y mae'n rhaid iddyn nhw ymateb iddynt. Gall asesu sgiliau a gwybodaeth gysyniadol mewn ymateb i ddeunyddiau nas gwelwyd o'r blaen barhau i ganiatáu hyblygrwydd o ran sut y caiff dysgwyr eu haddysgu, ond gall gynyddu anhawster asesiadau i rai dysgwyr. Mae llai o ragnodi yn cynnig mwy o gyfle i ysgolion a dysgwyr ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd, ac

Elfen	Disgrifiad	Sut allai edrych yn ymarferol?	Ystyriaethau eraill
		asesu eu hunain y gallai'r corff dyfarnu eu dilysu.	archwilio themâu sy'n adlewyrchu cwricwlwm eu hysgol eu hunain. Bydd graddau'r rhagnodi yn naturiol yn amrywio o bwnc i bwnc. Byddai angen cydbwyso manteision mwy o hyblygrwydd yn ofalus yn erbyn ystyriaethau llwyth gwaith athrawon a thegwch i ddysgwyr.
Cefnogi dilyniant dysgwyr yn unol ag egwyddorion cynnydd y Cwricwlwm	Yn ôl yr egwyddorion cynnydd bydd dysgwyr, dros amser, yn dangos: • Ehangder a dyfnder cynyddol o ran eu gwybodaeth • Dealltwriaeth ddyfnach o'r syniadau a'r disgyblaethau o fewn y Meysydd • Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau • Gwneud cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd • Effeithiolrwydd cynyddol.	Mae sawl ffordd y gallai cymwysterau helpu i gefnogi ac adlewyrchu cynnydd dysgwyr yn unol â'r egwyddorion hyn. Gallai asesu yn ôl portffolio ganiatáu i ddysgwyr ddangos eu cynnydd mewn pwnc dros amser. Gellid strwythuro cymwysterau i ganiatáu asesiad modiwlaidd Gallai asesiadau ar alw ganiatáu i ddysgwyr gael eu profi pan fyddan nhw'n barod. Gellid strwythuro cynnwys ac asesiadau i ganiatáu ar gyfer asesu	Gall cydnabod y cynnydd a wneir gan ddysgwyr greu heriau tegwch wrth ddyfarnu canlyniad terfynol cymhwyster. Sut y dylid adlewyrchu gwaith cynnar, llai datblygedig mewn gradd derfynol? Gall fod yn anodd diffinio meini prawf asesu ar gyfer sut y dylai dysgwyr gael cydnabyddiaeth am eu cynnydd ac mae perygl y bydd yn annog dulliau fformiwläig neu artiffisial o gyflwyno tystiolaeth asesu. Gallai dyfeisiau digidol ganiatáu i gynnydd dysgwyr gael ei gipio a'i goladu'n fwy naturiol, effeithlon a chreadigol nag o'r blaen. Bydd

Elfen	Disgrifiad	Sut allai edrych yn ymarferol?	Ystyriaethau eraill
		cynyddrannol i helpu i roi ymdeimlad o gynnydd i ddysgwyr a meithrin eu hyder a'u cymhelliant. e.e. drwy gydrannau modiwlaidd a asesir yn fewnol.	dysgwyr y dyfodol yn fwy cyfarwydd â dogfennu eu dysgu drwy e-bortffolios ac ati.
Galluogi dysgwyr i symud ymlaen i ddysgu a hyfforddi ôl-16	Mae cymwysterau'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi a galluogi dysgwyr i symud ymlaen i astudio ymhellach, hyfforddi a gweithio. Mae dysgwyr yn defnyddio canlyniadau cymwysterau i wneud penderfyniadau ynghylch pa gam i'w gymryd nesaf. Mae darparwyr dysgu a chyflogwyr yn defnyddio canlyniadau cymwysterau i dderbyn dysgwyr ar gyrsiau ac i rolau. Dylai cymwysterau felly gynnig tystiolaeth glir a dibynadwy o ble mae dysgwyr ar eu taith dysgu a'r hyn y maent yn barod ar ei gyfer nesaf. Dylai cymwysterau fod â phwrpas a ffocws clir i gefnogi dealltwriaeth a	Gall brandio cymwysterau chwarae rhan allweddol yn y gwaith o feithrin ymddiriedaeth yn y cymwysterau a gaiff eu hennill gan bobl ifanc. Gellid esbonio cymwysterau a'u canlyniadau i egluro pa lefel o gyflawniad y maent yn ei chynrychioli. Yn ogystal â gradd gyffredinol ar gyfer cymhwyster, gellid cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar dystysgrifau neu ochr yn ochr â hwy i roi darlun llawnach o'r hyn y mae dysgwr yn ei wybod, yn gallu ei wneud ac wedi'i brofi. Gallai hyn fod ar ffurf is-adrodd am gydrannau penodol sydd wedi cyfrannu at y radd gyffredinol.	Yng nghyd-destun cymwysterau cenedlaethol, mae angen elfen o safoni a chysondeb er mwyn i'r rhai sy'n dibynnu ar gymwysterau wneud casgliadau dilys am lefel y cyrhaeddiad a gyflawnwyd a gwneud cymariaethau rhwng gwahanol ddysgwyr. Mae is-adrodd canlyniadau ar sail gwybodaeth a sgiliau arwahanol yn peryglu naill ai cynyddu'r baich asesu, neu fod yn llai cywir oherwydd ei fod yn seiliedig ar dystiolaeth asesu gyfyngedig. Hyd yn oed os yw'r ystod o gymwysterau sydd ar gael yn briodol i bob dysgwr, gallai ysgolion a dysgwyr gael eu cyfyngu yn eu dewis o gymwysterau gan ffactorau eraill, gan gynnwys trefniadau atebolrwydd, a chyfyngiadau adnoddau.

Elfen	Disgrifiad	Sut allai edrych yn ymarferol?	Ystyriaethau eraill
	chydnabyddiaeth y cyhoedd o werth a chyfredoldeb cyflawniadau dysgwyr. Gall profiadau dysgwyr o astudio ar gyfer cymwysterau a'u sefyll gael effaith fawr ar eu penderfyniadau a'u cymhelliant ar gyfer dysgu pellach.	Neu gallai fod yn seiliedig ar wybodaeth ychwanegol am yr hyn y mae dysgwr wedi'i ddangos neu wedi dod ar ei draws fel rhan o gymhwyster. Gallai ystod addas o gymwysterau yn 14-16 oed sy'n cynnig dewis ystyrlon i bob dysgwr ar bob lefel helpu i sicrhau bod ganddynt brofiad mwy diddorol a gwerth chweil o ddysgu ac asesu, gan roi sylfaen fwy cadarnhaol iddynt ar gyfer symud ymlaen.	
Hyrwyddo iechyd meddwl a lles cadarnhaol	Wrth archwilio dyluniad cymwysterau newydd, mae'n bwysig edrych ar eu heffaith bosibl ar iechyd meddwl a lles dysgwyr. Mae gwahanol fathau o asesu yn effeithio ar wahanol ddysgwyr mewn gwahanol ffyrdd. Nid yw lleihau straen a phryder sy'n gysylltiedig ag asesu mor syml â newid o asesiad ar sail arholiad neu digwyddiad penodol i fwy o waith cwrs ac asesu parhaus. Gall pob	Gallai mwy o hyblygrwydd wrth asesu helpu i asesu dysgwyr mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu eu dewisiadau a'u hanghenion unigol, gan gynnwys eu hiechyd meddwl a'u lles. Gallai cymwysterau newydd gynnwys cymysgedd o arholiadau a gwaith cwrs, yn ogystal â dulliau mwy amgen, megis prosiectau sy'n gysylltiedig â diddordebau dysgwyr, arholiadau llyfr agored gyda llai o ffocws ar alw gwybodaeth ffeithiol yn ôl a mwy o ffocws ar gymhwyso sgiliau. Gellid gwneud mwy o	Gall straen a phryder godi hefyd o bryderon am degwch, neu degwch canfyddedig, asesiad. Mae dulliau asesu mwy hyblyg wedi'u teilwra yn fwy agored i amrywio dulliau gweithredu ar draws canolfannau a allai gynyddu'r math hwn o risg. Mae ymchwil yn awgrymu bod profiad dysgwyr o bryder profion yn ymwneud â llawer o ffactorau, ac nid yw pob un ohonynt yn gysylltiedig â dyluniad y cymhwyster. Mae'r rhain yn cynnwys:

Elfen	Disgrifiad	Sut allai edrych yn ymarferol?	Ystyriaethau eraill
	math gwahanol o asesiad fod yr un mor feichus i wahanol ddysgwyr.	ddefnydd hefyd o asesiadau amlddewis ac ar y sgrin. Mewn asesiadau sy'n parhau i fod ar ffurf arholiad, gall mwy o eglurder ynghylch ystod a dyfnder y cynnwys sydd i'w astudio helpu i leihau straen a chreu mwy o amser ar gyfer addysgu a dysgu. Gallai mwy o hyblygrwydd o ran amseru asesiadau, a chyfres lai dwys o asesiadau ar un adeg yn ystod y flwyddyn hefyd helpu i leddfu rhywfaint ar y straen sy'n gysylltiedig â chymwysterau.	• credoau am botensial dysgwr • anhawster canfyddedig yr asesiad • ymdopi a rheoleiddio emosiwn gwael • disgwyliadau ar gyfer perfformiad gan rieni a/neu athrawon • nifer y cymwysterau a gymerir • cystadleuaeth am leoedd yn seiliedig ar ganlyniadau.
Annog dysgwyr i greu cysylltiadau cryf ar draws eu dysgu	Mae'r Cwricwlwm wedi'i gynllunio i annog dysgwyr i wneud cysylltiadau o fewn y chwe Maes[1] ac ar eu traws, i ddatblygu a throsglwyddo eu sgiliau cyfannol[2] a thrawsgwricwlaidd[3], ac	Bydd y modd o wireddu hyn yn amrywio rhwng gwahanol bynciau, gyda rhai â chysylltiadau amlycach â'i gilydd nag eraill.	A yw hyn yn rhywbeth y dylai dysgwyr gael eu hasesu'n uniongyrchol arno ac y dylai fod yn ofynnol iddynt ei wneud, neu rywbeth y dylid cynllunio cymwysterau i'w hyrwyddo a'i annog?

[1] Dyma chwe maes dysgu a phrofiad y Cwricwlwm i Gymru: y Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Lles; y Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; a Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

[2] Y sgiliau cyfannol sy'n sail i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yw: creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, a chynllunio a threfnu.

[3] Mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol o fewn y Cwricwlwm i Gymru

Elfen	Disgrifiad	Sut allai edrych yn ymarferol?	Ystyriaethau eraill
	ymgysylltu â themâu trawsgwricwlaidd[4].		
Gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ddigidol	Mae cymhwysedd digidol yn un o'r tri sgil trawsgwricwlaidd mandadol.	Gallai technolegau digidol ganiatáu i ystod eang o weithgareddau asesu gael eu cynnal mewn ystod gynyddol o leoliadau ac ar wahanol ddyfeisiau, nad oes angen iddynt fod ar yr un pryd nac yn yr un lle. Gall hyblygrwydd o'r fath gefnogi dulliau dysgu unigol, personol a helpu i ddiwallu anghenion dysgwyr. Bydd gwneud gwell defnydd o dechnoleg ddigidol mewn cymwysterau yn codi cwestiynau pwysig ynghylch cynnwys pwnc newydd nad oedd modd ei ddarparu o'r blaen mewn ysgolion. Gall hefyd gynnig ffyrdd newydd o archwilio cynnwys pwnc presennol, er enghraifft mewn hanes sy'n gwneud amrywiaeth lawer cyfoethocach ac ehangach o ddeunydd ffynhonnell ar gael yn ddigidol.	Mae'n bwysig, lle mae technoleg ddigidol yn ymddangos mewn cynnwys ac asesu, bod materion sy'n ymwneud â mynediad cyfartal a hydrinedd yn cael eu hystyried yn ofalus. Mae defnyddio tystiolaeth clyweledol o ddysgwyr hefyd yn codi materion yn ymwneud â chydsyniad a diogelu. O'i wneud yn ystyriol, gallai sgiliau a dulliau digidol mwy amlwg o fewn cymwysterau helpu i gau rhai agweddau ar y gagendor digidol, gan helpu i sicrhau lefel gyffredin o gymhwysedd digidol i bob dysgwr gan eu helpu i wireddu dibenion Cwricwlwm i Gymru. Mae asesiadau digidol yn debygol o fod yn fwyaf dilys a hydrin pan

[4] Trwy'r themâu trawsbynciol bydd dysgwyr yn: ystyried cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol; a datblygu eu dealltwriaeth o addysg cydberthynas a rhywioldeb, addysg hawliau dynol ac amrywiaeth, ac addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â'r byd gwaith.

Elfen	Disgrifiad	Sut allai edrych yn ymarferol?	Ystyriaethau eraill
			fyddant yn gyson â dulliau addysgu a dysgu. Dylai dulliau digidol gynhyrchu, neu gipio, tystiolaeth asesu dysgwyr heb fod angen treulio amser ychwanegol yn 'trosi' neu'n digideiddio tystiolaeth i fformatau sy'n addas i'w cyflwyno. Dylid dylunio dulliau digidol o'r cychwyn cyntaf er mwyn cynyddu hygyrchedd, yn hytrach na chreu rhwystr i fynediad.
Asesiadau perthnasol, dilys a diddorol	Bydd gwahanol fathau o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau yn aml yn addas ar gyfer gwahanol fathau o asesu, boed yn arholiad ysgrifenedig, asesiad llafar, gwaith prosiect, perfformiad neu dasg ymarferol.	Gallai cymwysterau gynnwys cymysgedd o wahanol asesiadau i gefnogi addysgu effeithiol a deniadol a chaniatáu i ddysgwyr ennill ac arddangos yr ystod ehangaf bosibl o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau. Gellid gwella profiadau addysgu a dysgu hefyd drwy ystyried a oes rhaid asesu'r holl gynnwys, ac a oes rhaid i'r holl gynnwys a asesir gyfrannu at radd gyffredinol. e.e. gallai'r cymhwyster ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gael profiadau penodol, gan dystio i'w hymgysylltiad a'u	Bydd angen i ddewis a chynllun dulliau asesu gydbwyso nifer o ffactorau gan gynnwys: • Perthnasedd a dilysrwydd mewn perthynas â'r pwnc dan sylw • Effaith ar brofiadau addysgu a dysgu • Hydrinedd a chost i'r ysgol • Lles dysgwyr • Dibynadwyedd y canlyniadau (y cyfeirir atynt weithiau fel trylwyredd neu gyfredoldeb).

Elfen	Disgrifiad	Sut allai edrych yn ymarferol?	Ystyriaethau eraill
		cyfranogiad, yn hytrach nag asesu eu perfformiad yn uniongyrchol. Mae 'ymgysylltu' yma yn ymwneud â sicrhau bod diddordebau dysgwyr yn cael ystyriaeth deg wrth ddylunio a datblygu cymwysterau, fel eu bod yn: • hygyrch i ddysgwyr • gynhwysol ac yn gynrychioliadol • cymell dysgwyr • creu amgylchedd asesu cadarnhaol • caniatáu amser i addysgu a dysgu • defnyddio technoleg yn briodol • gosod disgwyliadau rhesymol ar ddysgwyr • ystyried anghenion gwahanol ddysgwyr, gan gynnwys eu hiechyd meddwl a'u lles	
Hydrin ar gyfer canolfannau	Mae hydrinedd yma yn ymwneud ag effaith debygol cymhwyster a'i asesiad o safbwynt ysgolion/canolfannau, gan gynnwys athrawon, darlithwyr, a/neu diwtoriaid.	Cymwysterau ac asesiadau hydrin yw'r rhai sydd: • yn rhesymol o ymarferol i ganolfannau eu cyflenwi ac yn gyraeddadwy i ddysgwyr • yn gwneud defnydd effeithlon a fforddiadwy o adnoddau • yn gosod disgwyliadau realistig ar arbenigedd a llwyth gwaith staff	

Elfen	Disgrifiad	Sut allai edrych yn ymarferol?	Ystyriaethau eraill
		• yn ystyried effaith asesu ar gymwysterau eraill a chyfrifoldebau eraill yr ysgol • yn ystyried effaith gronnol y baich asesu, gan gynnwys amser, ar draws cyfres o gymwysterau	
Adlewyrchu amrywiaeth y dysgwyr a'r byd y maen nhw'n byw ynddo.	Mae amrywiaeth yn un o'r themâu trawsgwricwlaidd. Sut y gallai cymwysterau adlewyrchu a chefnogi cynwysoldeb y Cwricwlwm a'r amrywiaeth sy'n bodoli ledled Cymru?	Bydd angen adlewyrchu hyn yn y cynnwys a'r trefniadau asesu sydd ar waith ar gyfer pob cymhwyster. Mewn rhai pynciau, fel hanes a ieithoedd, efallai y bydd ffyrdd amlwg y gall cynnwys adlewyrchu'r amlddiwylliannol ac amrywiaeth. Mewn pynciau eraill gall hyn fod yn fwy cynnil.	Mae angen iddo fod yn ddilys a chefnogi athrawon a dysgwyr i fynd i'r afael â chwestiynau am amrywiaeth yn hyderus a gyda chwilfrydedd.
Hyrwyddo addysgu a dysgu cadarnhaol	Mae canllawiau'r Cwricwlwm yn nodi bod addysgeg wrth wraidd y cwricwlwm. Sut gall cynllun cymwysterau ac asesu alluogi ac annog ysgolion ac athrawon i fabwysiadu dulliau addysgu effeithiol ac arloesol? Mewn ffordd arall, sut y gellir cynllunio cymwysterau i osgoi cyfyngu'n ormodol ar ryddid	Bydd cynnwys athrawon ac eraill yn agos yn y gwaith o gynllunio cymwysterau newydd yn helpu i ganolbwyntio meddwl ar y berthynas rhwng addysgeg, cwricwlwm ac asesu. Gallai manylebau cymwysterau a deunyddiau ategol gynnwys trafodaeth ar yr egwyddorion a'r dulliau addysgeg y mae'r cynnwys a'r asesu wedi'u cynllunio i'w galluogi.	Wrth ystyried pa ddulliau asesu i'w cynnwys mewn cymhwyster a sut y gellid eu cynllunio, bydd angen ystyried yn ofalus yr effaith bosibl ar ymarfer addysgu.

Elfen	Disgrifiad	Sut allai edrych yn ymarferol?	Ystyriaethau eraill
	athrawon i addysgu pwnc yn unol â chwricwlwm eu hysgol a'u harbenigedd proffesiynol eu hunain?	Wedi'i wneud mewn cydweithrediad ag athrawon ac addysgwyr, gallai hyn gefnogi dulliau addysgu cadarnhaol yn ogystal â llywio gwerthusiad parhaus o ba mor dda y mae cymwysterau'n cyflawni eu nodau.	